Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Gymraeg Penalltau
# Cwm Calon
# Ystrad Mynach
# Caerffili
# CF82 6AP

**Dyddiad yr arolygiad: 28 Chwefror - 2 Mawrth 2011**

**gan**

**Dr David Gareth Evans**

**Arolygydd Cofnodol, o dan gontract i Estyn**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:


Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk


Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk


**Ⓗ Argraffydd a Rheolydd Llyfrfa Ei Mawrhydi 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod yr hawlfraint yn y deunydd fel y dywedwyd uchod a rhaid nodi teitl yr adroddiad.**

## Cyd-destun

Ysgol Gynradd Gymraeg yw Ysgol Penalltau sydd wedi'i lleoli yng nghanol ystad newydd o dai o'r enw Cwm Calon, ger Ystrad Mynach yn Sir Gaerffili. Mae dalgylch eang yr ysgol yn cynnwys pentrefi Penybryn, Gelligaer, Glyn-gaer, Glan y Nant,Tir y Berth a Phenpedairheol. Ystyrir nifer o'r ardaloedd yma yn ardaloedd di-freintiedig.

Agorwyd yr ysgol ym Medi 2009 gyda 18 o ddisgyblion, (saith yn unig oedd o oed statudol) a doedd dim un yn gymwys i dderbyn cinio rhad. Erbyn hyn mae 52 o ddisgyblion yn yr ysgol, gan gynnwys rhai sy'n codi'n dair, gyda 20% o ddisgyblion oed statudol â'r hawl i dderbyn cinio rhad. Mae'r ffigwr yn agos at gyfartaleddau cenedlaethol a lleol. Ar hyn o bryd mae wyth disgybl ar y gofrestr Anghenion Addysg Arbennig (AAA), sef 15% o'r ysgol, ffigwr sydd o dan y cyfartaleddau cenedlaethol a lleol. Erbyn hyn mae canran arwyddocaol o ddisgyblion oed statudol wedi trosglwyddo i'r ysgol o ysgolion cyfrwng Saesneg.

Caiff disgyblion y Cyfnod Sylfaen eu haddysgu'n gyfan gwbwl trwy gyfrwng y Gymraeg a chyflwynir Saesneg fel pwnc yng nghyfnod allweddol 2 (CA2).

Mae dau ddosbarth yn yr ysgol: un ar gyfer y plant meithrin (rhan amser), ac un ar gyfer disgyblion derbyn hyd at Flwyddyn 4. Mae 100% o'r disgyblion yn dod o gartrefi lle nad yw'r Gymraeg yn brif iaith y cartref.

Dechreuodd y pennaeth yn yr ysgol adeg yr agoriad.

Y gyllideb ysgol unigol yn 2010-11 fesul disgybl ar gyfer Ysgol Penalltau yw £6296, sy'n cymharu gydag uchafswm o £6296 ac isafswm o £2486 ar gyfer ysgolion cynradd yng Nghaerffili. Yr ysgol hon sydd â'r gyllideb fesul disgybl uchaf o'r 75 ysgolion cynradd yng Nghaerffili.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae'r ysgol hon yn dda oherwydd bod:

- rhan fwyaf  y disgyblion yn gwneud cynnydd cadarnhaol yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol;
- ansawdd yr addysgu yn dda;
- yr ysgol yn hyrwyddo ethos o ofal, parch a chydraddoldeb mewn modd gweithredol;  ac
- bod yr athrawon yn gofalu'n dda am eu disgyblion, ac yn cynllunio gweithgareddau priodol a gwahaniaethol i sicrhau eu cynnydd.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon ar gyfer gwella yn dda oherwydd bod:

- prosesau hunan-arfarnu'r ysgol yn effeithiol, ac o ganlyniad maent yn cydnabod yn gywir  pob un o'i chryfderau a'i gwendidau;
- cynlluniau gwella yn arwain at weithredu effeithiol ac mae safonau yn y meysydd sydd angen sylw yn codi; ac mae
- arweinyddiaeth y pennaeth yn dda; mae ganddi weledigaeth eglur ac mae'n rhoi sylw da i godi safonau.

## Argymhellion

Er mwyn gwella, mae angen i'r ysgol:

A1 godi safonau darllen y disgyblion;

A2 parhau i ddatblygu'r gyfundrefn asesu a'r broses tracio electronig; a

A3 datblygu ymhellach y ddarpariaeth gogyfer dinasyddiaeth fyd eang a chynaladwyedd.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd Ysgol Penalltau yn addasu'r cynllun gweithredu presennol er mwyn ymateb yn llawn i'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Pan fyddant yn dechrau yn yr ysgol, mae gan bron bob un o'r plant lefelau cyfartalog o fedrau sylfaenol gyda thua hanner ohonynt wedi mynychu addysg cyn ysgol. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn cyflawni'r deilliannau a ddisgwylir am eu hoedran erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen.

Canlyniadau disgyblion yng nghyfnod allweddol 1 (CA1) yn 2010 oedd y cyntaf yn hanes yr ysgol newydd. Hefyd, o archwilio'r cyd-destun, gwelir bod y nifer ym mlwyddyn dau yn gymharol fach ac roedd AAA gan ganran arwyddocaol ohonynt. Oherwydd y nifer fach iawn oedd ar ddiwedd CA1 felly rhaid trin canlyniadau asesiadau athrawon yn ofalus iawn, oherwydd gall canlyniadau un disgybl effeithio'n sylweddol ar berfformiad cyffredinol yr ysgol.

Yn CA1 yn 2010, roedd canlyniadau asesiadau athrawon yn y Gymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth o dan y cyfartaleddau cenedlaethol, lleol a'r teulu. Roedd y dangosydd pynciau craidd (DPC), sef canran y disgyblion sy'n ennill o leiaf lefel dau mewn Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth mewn cyfuniad, hefyd o dan y cyfartaleddau cenedlaethol, lleol a'r teulu o ysgolion.

Mae canlyniadau disgyblion CA1 yn 2010 yn dangos yr ysgol yn y chwartel isaf o ysgolion gyda'r un cyfanswm o brydau bwyd am ddim ac mae hi yw'r ysgol isaf yn y teulu o ysgolion tebyg. Nid oedd neb wedi cyrraedd lefel tri, sef y gradd uchaf posibl, yn 2010. Roedd y bechgyn wedi perfformio'n well na'r merched yn 2010.

Mae rhan fwyaf y disgyblion, gan gynnwys y rhai ag AAA a'r rhai sy'n cael prydau bwyd am ddim, yn gwneud cynnydd da o ran datblygu'r rhan fwyaf o fedrau allweddol. Mae bron pob un ohonynt yn gwrando'n dda ac yn siarad yn glir. Erbyn diwedd CA1 gall y mwyafrif helaeth ddefnyddio'r iaith Gymraeg yn hyderus o gofio eu cefndir ieithyddol wrth ddechrau yn yr ysgol. Mae safonau llafar y rhan fwyaf yn arbennig o dda yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Mae safonau darllen rhan fwyaf y disgyblion yn ddigonol yn y Gymraeg. Mae safonau medrau ysgrifennu creadigol y rhan fwyaf ohonynt yn dda yn y ddwy iaith ac maent yn ysgrifennu storiau, darnau bach o farddoniaeth a newyddion effeithiol. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da mewn rhifedd ar draws y cwricwlwm ac yn gwneud defnydd effeithiol o fedrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh). Mae gallu'r disgyblion i gyd-weithio mewn parau ac mewn grwpiau yn annibynnol yn nodwedd dda ar draws yr ysgol.

**Lles: Da**

Mae gan rhan fwyaf y disgyblion agweddau cadarnhaol tuag at fwyta'n iach a chadw'n heini.Yn gyffredinol maent yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol .

Mae'r disgyblion yn mynegi barn ynghylch beth maent yn ei ddysgu ar ddechrau pob tymor. Mae llawer ohonynt yn mwynhau dysgu ac maent yn arddangos balchder a hyder yn eu gwaith. Mae eu hymddygiad da a'u hagweddau cadarnhaol tuag at eu dysgu yn adlewyrchiad o'u cymhelliant i lwyddo. Maent yn uniaethu yn dda gyda'i gilydd, yn enwedig yn y dosbarthiadau oedran cymysg.

Mae llawer o ddisgyblion yn arddangos agweddau gofalgar tuag at ei gilydd a thuag at eiddo. Maent hefyd yn barod i ymgymryd â chyfrifoldebau ac yn barod i weithredu er lles eraill. Pan yn cydweithio gyda'i gilydd, mae llawer yn arddangos nodweddion cadarnhaol, megis amynedd a goddefgarwch.

Lefel presenoldeb am y tri tymor cyn yr arolygiad yw 94.4**%** ac mae hyn yn uwch na'r ffigurau lleol a chenedlaethol. Mae cyfartaledd absenoldeb heb awdurdod am y tri tymor diweddaraf yn 2% ac mae hyn yn uwch na'r darlun lleol a chenedlaethol. Mae'r ysgol yn dechrau gweithio'n agosach gyda'r Swyddog Lles i wella'r sefyllfa hwn.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm cytbwys ac ysgogol sy'n ennyn diddordeb yr holl ddisgyblion. Mae'r gwersi yn cael eu cynllunio'n drylwyr ac yn ofalus er mwyn sicrhau eu bod yn ateb anghenion yr holl ddisgyblion sy'n amrywio o ran oedran a gallu. Gwna'r ysgol ymdrech i gyfoethogi profiadau dysgu drwy ddarparu amrywiaeth o weithgareddau allgyrsiol, gwahodd ymwelwyr i'r ysgol a thrwy ymweld â sefydliadau o fewn yr ardal leol, megis Maenordy Llancaiach Fawr a Fferm Cantref.

Ceir gweithdrefnau a strategaethau da ar gyfer hybu gafael gynyddol disgyblion ar yr iaith Gymraeg a'r defnydd a wnânt ohoni. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau llafaredd y disgyblion wedi ei chynllunio'n drylwyr ac yn systematig, ond nid yw'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau darllen wedi ei sefydlu mor effeithiol. Paratoir yn effeithiol ar gyfer darparu sgiliau ysgrifennu ar draws y cwricwlwm. Caiff y disgyblion gyfleoedd pwrpasol i weithio'n unigol, mewn parau a grwpiau. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau rhifedd, TGCh a chyfathrebu yn effeithiol.

Ceir darpariaeth dda i hybu ywybyddiaeth o ddiwylliant a threftadaeth Cymru ac mae hyn yn cael blaenoriaeth uchel trwy ystod o brofiadau cwricwlaidd ac ym mywyd cyffredinol yr ysgol.

Mae'r gweithdrefnau ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn ddigonol.

**Addysgu: Da**

Mae ansawdd yr addysgu yn dda. Mae gwybodaeth drylwyr gan yr athrawon am y meysydd dysgu a'r pynciau y maent yn eu haddysgu. Mae cynlluniau manwl a phwrpasol wedi eu darparu ac ar waith drwy'r ysgol.

Mae'r athrawon yn defnyddio ystod eang o strategaethau addysgu ac yn cyflwyno gwersi bywiog. Maent yn cynnwys pawb yn y drafodaeth ac yn cefnogi'r disgyblion tra ar waith yn effeithiol. Maent yn cwestiynu yn bwrpasol ac yn dreiddgar er mwyn symud y dysgu ymlaen ac mae gwaith gwahaniaethol, effeithiol iawn yn cael ei gyflwyno. Mae ymyrraeth staff cynhaliol yn effeithiol ac yn sicrhau cefnogaeth lawn i ddisgyblion penodol. Sicrheir cyfleoedd addas ar gyfer datblygu medrau allweddol ar draws y cwricwlwm. Gosoda'r athrawon feini prawf llwyddiant amlwg i'r disgyblion.

Mae cyrhaeddiad disgyblion yn cael ei asesu'n rheolaidd ac mae'r canfyddiadau yn cael eu dadansoddi'n fanwl i olrhain cynnydd. Defnyddir asesiadau'r athrawon i osod targedau ar gyfer gwelliant. Ar hyn o bryd mae'r ysgol yn y broses o ddatblygu cyfundrefn newydd i dracio cynnydd y disgyblion.

Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu a medrau dysgu annibynnol ar waith ac mae gan y disgyblion eu targedau personol.

Derbynia'r disgyblion adborth llafar ac ysgrifenedig priodol gan yr athrawon a'r staff cynhaliol. Derbynia rhieni wybodaeth am gyflawniad a chynnydd eu plant ar ffurf adroddiad blynyddol ac mewn dau gyfarfod yn flynyddol. Mae'r rhieni yn datgan fod yr adroddiadau hyn yn eglur, yn llawn gwybodaeth ac yn cynnig targedau ar gyfer gwelliant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae trefniadau effeithiol yn bodoli er mwyn cefnogi iechyd a lles y disgyblion, megis cynllun llythrennedd emosiynol Super Shellby. Mae'r trefniadau yma'n cyfrannu'n dda at eu datblygiad ac yn cefnogi eu dysgu yn effeithiol. Mae trefniadau gwrth-fwlio'r ysgol yn weithredol ac yn cael eu harddangos yn weledol o amgylch yr adeilad ac mae'r disgyblion yn ymwybodol iawn ohonynt .Mae'r ddarpariaeth i hybu agweddau ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion wedi ei datblygu'n

effeithiol ac mae'n cael effaith gadarnhaol ar eu hymddygiad. Mae agweddau o drefniadau Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh) yr ysgol ac amser cylch yn cyfrannu'n dda yn y maes yma.

Mae'r ysgol wedi sefydlu partneriaethau da gyda asiantaethau arbenigol er mwyn sicrhau cymorth ychwanegol i ddisgyblion a rhieni.

Mae gan yr ysgol bolisi priodol ac mae ganddi weithdrefnau effeithiol ar gyfer diogelu.

Mae trefniadau effeithiol yn sicrhau bod disgyblion ag AAA yn cael eu hadnabod yn gynnar, a chefnogir hwy gan amrywiaeth o raglenni a strategaethau pwrpasol. Mae'r staff yn cyfrannu'n effeithiol er mwyn sicrhau eu bod yn llwyddo i gyrraedd y targedau a osodir iddynt. Mae'r Cynlluniau Addysg Unigol wedi eu llunio yn bwrpasol ac yn cynnig arweiniad i'r athrawon, y disgyblion a'r rhieni.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae ethos cyfeillgar, gweithgar a chynhwysol, sydd yn seiliedig ar gefnogaeth a pherthynas gadarnhaol, yn un o gryfderau'r ysgol. Ymdrinnir â materion cyfleoedd cyfartal, a materion parthed amrywiaeth a chydraddoldeb ym mywyd yr ysgol yn effeithiol, ac mae'r trefniadau cadarn sydd yn bodoli yn sicrhau ymddygiad da ar draws yr ysgol. Llwydda'r ysgol i greu ymdeimlad o undod a phwrpas.

Mae'r dosbarthiadau'n groesawus gydag arddangosfeydd lliwgar yn amlygu tasgau cyfredol ac yn rhoi bri ar waith disgyblion. Gwneir defnydd da o'r adeilad newydd a thir yr ysgol i greu ardaloedd dysgu symbylus yn yr awyr agored. Caiff adeilad a thiroedd yr ysgol eu cynnal a chadw'n briodol. Mae'r adnoddau o ansawdd da a chaiff y rhain eu defnyddio'n dda.

| | | |
|---|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3:** | **Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae arweinyddiaeth feddylgar a phwrpasol y pennaeth yn llwyddo i gydlynu ymdrechion y corff llywodraethu, staff a'r rhieni yn effeithiol gan roi ymdeimlad cryf o gyfeiriad i waith yr ysgol. Maent oll yn ymrwymedig i nodau ac amcanion yr ysgol, cydrannant werthoedd cytûn ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o ran datblygiad a llwyddiant y disgyblion.

Ymgymera'r pennaeth â'i chyfrifoldebau yn effeithiol. Cyd-weithia'r staff addysgu a'r staff cynhaliol yn effeithiol fel tîm gan ymgymryd â chyfran briodol o gyfrifoldebau cwricwlaidd a rheolaethol. O dan arweiniad egniol, sensitif y pennaeth, maent yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod materion sy'n ymwneud â rhediad dydd-i-ddydd yr ysgol ac ystyrir eu barn cyn gwneud penderfyniadau strategol.

Mae'r ysgol yn rhoi ystyriaeth dda i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol yn ei rhaglen waith a chydweithia'n effeithiol gyda nifer o bartneriaethau. Mae'r ysgol yn

ymgymryd yn effeithiol â nifer o fentrau, megis yr Ysgolion Iach ac Ysgolion Eco. Cymerir camau pendant i weithredu gofynion y Cyfnod Sylfaen. Caiff ansawdd yr addysgu ei fonitro'n rheolaidd gan y pennaeth ac mae trefniadau effeithiol ar gyfer adnabod a diwallu anghenion proffesiynol athrawon.

Mae gan aelodau'r corff llywodraethu adnabyddiaeth drylwyr o flaenoriaethau'r ysgol a gweithredant yn llwyddiannus iawn er mwyn cynorthwyo'r pennaeth i roi cyfeiriad strategol i waith yr ysgol. Ymagweddant yn feirniadol tuag at eu gwaith gan chwilio'n gyson am ffyrdd i weithredu'n fwy effeithiol.

**Gwella ansawdd: Da**

O dan arweinyddiaeth egniol a medrus y pennaeth, mae diwylliant hunan-arfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant yn datblygu'n dda o fewn yr ysgol. O ganlyniad mae gan y staff a'r corff llywodraethu ddarlun clir o berfformiad yr ysgol, ei chryfderau yn ogystal â meysydd sydd angen eu datblygu. Ceir ystod dda o weithgareddau monitro gan y pennaeth yn bennaf. Caiff yr holl staff ac aelodau'r corff llywodraethu gyfleoedd i gyfrannu i'r broses hunan-arfarnu ac mae'r ysgol yn gwerthfawrogi sylwadau rhieni ac yn datblygu gweithdrefnau ar gyfer cryfhau ymhellach llais disgyblion.

Dehonglir gwahanol fathau o ddata yn effeithiol er mwyn cael darlun clir o gynnydd a chymhelliant disgyblion a gosodir targedau pendant. Gwneir defnydd da o gefnogaeth ymgynghorwyr i'r broses hunan-arfarnu. Mae dogfen hunan-arfarnu'r ysgol yn gynhwysfawr a defnyddiol iawn, sy'n rhoi darlun clir o'r ysgol fel y mae ar hyn o bryd.

Ceir cysylltiad cryf rhwng y broses hunan-arfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant a defnyddir y wybodaeth a gesglir yn effeithiol wrth gynhyrchu cynllun datblygu ysgol (CDY) clir a chynhwysfawr.

Ceir gweithdrefnau da ar gyfer cefnogi datblygiad proffesiynol aelodau'r staff ac mae cydweithrediad effeithiol rhwng yr ysgol ac ysgolion eraill o fewn y clwstwr lleol. Mae'r rhwydwaith yma yn gwneud cyfraniad da at ddarpariaeth gyffredinol yr ysgol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Ceir ystod da o bartneriaethau effeithiol gyda rhieni, y corff llywodraethu, y gymuned leol gan gynnwys mudiadau sy'n hybu'r Gymraeg, cylchoedd meithrin, yr awdurdod addysg, asiantaethau gofal ac ysgolion lleol. Yn ogystal mae cysylltiadau â byd busnes yn datblygu'n dda. Gwna'r rhain gyfraniad positif at ansawdd y ddarpariaeth addysgol a'r safonau a gyflawnir. Ystyrir y berthynas gyda rhieni yn holl bwysig ac mae'r rhieni yn cyfrannu'n effeithiol i fywyd yr ysgol mewn sawl cyd-destun. Ceir system o gysylltiadau da gyda rhieni sydd, ar y cyfan, yn cael ei weithredu'n dda. Ceir gweithdrefnau da ar gyfer derbyn plant, gan gynnwys hwyr ddyfodiaid, i mewn i'r ysgol. Mae'r ysgol yn elwa o gysylltiadau cryf gydag ysgolion y clwstwr lleol, gan gynnwys yr ysgol gyfun, ac mae gweithdrefnau effeithiol yn datblygu i safoni a chymedroli asesiadau.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae’r ysgol yn rheoli ei hadnoddau’n dda. Mae gan yr ysgol ddigon o athrawon a staff cynhaliol ar hyn o bryd sy’n gymwys ac effeithiol. Cydweithiant yn dda a gwnânt gyfraniadau pwysig i waith a bywyd yr ysgol.

Mae’r ysgol yn lân ac yn daclus a gwneir defnydd ardderchog o’r safle. Mae’r corff llywodraethu yn cadw golwg manwl ar y gyllideb ac fe sicrheir bod y gwario yn ymateb i ofynion a blaenoriaethau’r CDY.

Gwna athrawon ddefnydd effeithiol o’u hamser ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu ac mae rheolaeth o’r amser hwn yn dda. Mae cyfrifoldebau a disgwyliadau clir gan yr athrawon. Mae gan yr ysgol drefn briodol o reoli perfformiad sy’n cynnig cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus.

O ystyried cynnydd  rhan fwyaf y disgyblion, y profiadau dysgu effeithiol, ansawdd da yr addysgu a’r rheolaeth, mae’r ysgol yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i rieni

Dychwelwyd 14 o holiaduron y rhieni ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn fodlon neu'n fodlon iawn â'r ysgol yn gyffredinol. Dywed pob un bod ei plentyn wedi derbyn cymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. Mae pob un hefyd yn credu bod yr addysgu'n dda a bod staff yn disgwyl i'w plant weithio'n galed. Mae llawer yn credu bod gwaith cartref yn briodol; a phawb yn cytuno eu bod yn derbyn gwybodaeth gyson am gynnydd eu plant.  Mae pawb o'r farn bod yr ysgol yn helpu eu plant i aeddfedu ac i ysgwyddo cyfrifoldeb, a'r rhan fwyaf yn cytuno bod yr ysgol yn rhoi cymorth ychwanegol, priodol iddynt mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. Mae llawer yn teimlo eu bod yn deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion, a phawb yn datgan bod amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. Mae'r rhan fwyaf yn credu bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. Mae'r mwyafrif yn teimlo bod eu plant wedi eu paratoi'n dda ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg.

### Ymateb i'r holiadur i ddysgwyr

Allan o dri disgybl yn CA2, llenwodd tri yr holiadur a siaradodd y tîm arolygu â'r disgyblion hefyd. Mae pob un ohonynt yn credu bod yr athrawon a'r oedolion eraill yn eu helpu i ddysgu ac i wneud cynnydd. Maent yn datgan bod yr ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio a'u bod yn gwybod gyda phwy i siarad os ydynt yn poeni neu'n gofidio. Mae pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn cytuno bod llawer o gyfleoedd i gael ymarfer corff yn rheolaidd. Maent i gyd yn gwybod beth i wneud  a gyda phwy i siarad os ydynt yn gweld y gwaith yn anodd. Dywed y tri eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol a theimlant bod eu gwaith cartref yn eu helpu i ddeall eu gwaith a'u gwella. Mae 33% yn anghytuno bod disgyblion eraill yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio.

.

## Atodiad 2

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Dr David Gareth Evans | Arolygydd Cofnodol |
| Mr Brinley Wynne Jones | Arolygydd Tîm |
| Mr Dylan Jones | Arolygydd Lleyg |
| Mrs Manon Wyn Jones | Arolygydd Cymheiriaid |
| Mrs Andrea Woods | Enwebai'r Ysgol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad am ddim i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost atgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod allweddol 1 | Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |